Peidiwch ag anghofio, mae'ch baban newydd â hawl i £250.

Ar ôl i chi wneud cais am Fudd-dal Plant a chael dyfarniad ohono, byddwn yn anfon taleb gwerth £250 atoch er mwyn i chi agor cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant.

Beth yw'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant?

Cyfrif cynilo a buddsoddi yw'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant a lansiwyd ym mis Ebrill 2005 ac a gynlluniwyd i roi plant ar y blaen yn ariannol ac i helpu i ddysgu'r gwerth cynilo iddynt.

Pwy sy'n gymwys?

Mae pob plentyn a aned ar neu ar ôl 1af Medi 2002 yn gymwys ar gyfer cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, os ydynt yn byw yn y DU, dyfarnwyd Budd-dal Plant ar eu cyfer, ac nid ydynt yn amodol ar gyfyngiadau mewnfudo.

Faint y bydd fy mhlentyn yn ei dderbyn?

Bydd pob plentyn cymwys yn derbyn taleb gwerth £250 yn awtomatig gan y Llywodraeth er mwyn cychwyn eu cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant.

Yn ogystal â hyn, os ydych yn derbyn y swm llawn o Gredyd Treth Plant, am fod incwm eich teulu yn llai na'r trothwy incwm Credyd Treth Plant (£14,155 ar hyn o bryd), bydd eich plentyn yn derbyn £250 ychwanegol yn awtomatig. Telir y swm hwn yn uniongyrchol i mewn i'w g/chyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar ôl i'ch dyfarniad credyd treth am y flwyddyn gael ei derfynu.

Telir £250 arall i'ch plentyn pan fydd yn cyrraedd ei b/phen-blwydd yn saith mlwydd oed. Eto, bydd plant sy'n rhan o deulu ag incwm is yn derbyn taliad ychwanegol o £250.

Sut mae'n gweithio?

Unwaith y byddwch yn derbyn taleb eich plentyn, bydd angen i chi agor cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae gwahanol fathau o gyfrif ar gael i gwrdd ag anghenion pawb, yn ogystal â detholiad o wahanol ddarparwyr. Byddwch yn derbyn pecyn gwybodaeth gennym a fydd yn rhoi rhagor o fanylion. Cofiwch, os dewiswch gyfrif cynilo efallai na fydd ei werth yn cynyddu gymaint â chyfrif â chyfranddaliadau ynddo. Fodd bynnag, gall gwerth cyfranddaliadau ostwng yn ogystal â chynyddu.

Ni all neb ond eich plentyn godi'r arian o'r cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, ac ni all eich plentyn wneud hynny ond ar ôl ei b/phen-blwydd yn 18 mlwydd oed. Unwaith y bydd yn 18 mlwydd oed gall ei ddefnyddio fel y mynno.

Yn ystod y 18 mlynedd, gall teulu, cyfeillion a'ch plentyn hefyd gyfrannu at y Gronfa. Y swm uchaf posibl y gellir ei gyfrannu i'r cyfrif bob blwyddyn yw £1,200. A chofiwch na fyddwch chi na'ch plentyn yn talu treth ar y cyfrif.

Beth mae angen i mi ei wneud yn awr?

Dim byd ar y foment, heblaw am gwblhau'r ffurflen gais am Fudd-dal Plant.

Ar ôl i chi gael dyfarniad o Fudd-dal Plant, anfonir y pecyn gwybodaeth a'r daleb gwerth £250 atoch yn awtomatig o fewn mis.

O ble y gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, ymwelwch â

www.childtrustfund.gov.uk

neu ffoniwch Llinell Gymorth Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar 0845 302 1489 am wasanaeth Cymraeg neu ar 0845 302 1470 am wasanaeth Saesneg.

Cronfa Ymddiriedolaeth Plant
Beth fydd dyfodol eich un chi?

T9P 7005 © Hawlfraint y Goron AWST 06 L18830

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, ymwelwch â

www.childtrustfund.gov.uk

neu ffonio'r Llinell Gymorth Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar 0845 302 1489 am wasanaeth Cymraeg neu ar 0845 302 1470 am wasanaeth Saesneg.

Cyllid & Thollau EM

Cronfa Ymddiriedolaeth Plant

Beth fydd dyfodol eich un chi?